



Cadeiryddion LRF

Dyddiad: 26 Gorffennaf
2018

Annwyl Gydweithwyr

PARATOADAU BREXIT

Mae adroddiadau diweddar yn y cyfryngau wedi dangos bod Llywodraeth y DU yn dechrau asesu effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) 'heb gytundeb' fis Mawrth nesaf. Yn ddiweddar cyhoeddodd yr UE ei hun [ddogfen](#) sy'n cynnwys canllaw cyffredinol ar yr hyn y dylai Aelod Wladwriaethau fod yn ei ystyried ac mae Llywodraeth y DU wedi addo cyhoeddi cyfres o bapurau technegol yn ystod yr haf a fydd yn cynnig cyngor pellach ar y risgiau a'r problemau posibl.

Cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi'r papurau hyn ac felly cyn i ni wybod pa mor ddefnyddiol fyddant fel sail i ymateb ymarferol gan y sector cyhoeddus i ymadawiad 'heb gytundeb' yng Nghymru, nid oes lawer o wybodaeth ar gael i ni. Er gwaethaf hyn, drwy ein gwaith ein hunain a thrwy gynllunio yn Llywodraeth Cymru gwyddom y gall goblygiadau Brexit amlygu eu hunain mewn nifer o ffyrdd, a gall rhai ohonynt gael effaith uniongyrchol ac ar unwaith ar ddinasyddion, tra bydd effeithiau eraill yn llai uniongyrchol. Yn y cyd-destun hwn, mae ein fframwaith parodrwydd manwl ar gyfer argyfwng ac sydd wedi'i brofi, yn awgrymu y gallai gweithredu cynlluniau presennol – neu amrywiadau arnynt – fod yn sail i ymateb cadarn a chyflym mewn llawer o amgylchiadau posibl sy'n gysylltiedig â Brexit.

Wrth i ni wynebu cyfnod o gryn ansicrwydd o ran telerau ein hymadawiad â'r UE, fel mesur rhagofalus, byddwn yn ddiolchgar pe byddai eich Fforwm yn ystyried goblygiadau Brexit fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud, ac yn datblygu trefniadau cynllunio lleol i ymateb i'r risgiau a all amlygu eu hunain. Rydym yn disgwyl rhagor o wybodaeth am y risgiau a'r tybiaethau cynllunio cyfatebol ymddangos ar lefel y DU wrth i ni nesáu at ddyddiad gadael yr UE, a byddem hefyd yn hapus i drafod ein gwaith mewnol yn gyfrinachol â chi wrth iddo ddatblygu, os byddai hynny'n fuddiol. Ni fyddai'n afresymol i ddisgwyl y gallai ystyriaethau gynnwys parodrwydd sy'n gysylltiedig â rhai meysydd a amlinellir yn Rhan 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, fel amhariad ar gyflenwadau bwyd, ynni neu danwydd, amharu ar drafnidiaeth (yn enwedig yng nghyffiniau porthladdoedd, lles anifeiliaid a rhedeg gwasanaethau iechyd yn esmwyth ac effeithiol.

Rwyf yn deall bod y cais hwn o reidrwydd yn un cyffredinol ar hyn o bryd ond, cyn hir, rwyf yn gobeithio gallu rhoi mwy o wybodaeth am amgylchiadau posibl i helpu i fireinio'r drafodaeth a'ch ymateb posib. Hefyd, rwyf yn gobeithio trefnu cyfarfod o holl Gadeiryddion LRF yn gynnar yn yr Hydref i ganfod barn fwy eang yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau eich bod wedi cynnwys yr eitem ar eich agenda a chrynodeb byr o'ch trafodaeth, gan gynnwys pwyntiau gweithredu.

Yn gywir



REG KILPATRICK

Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol /
Director for Local Government

cc Matt Jukes, Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru
Patrick Rees, Cydlynnydd Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG)
Simon Wilkinson, CLILC

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

